

# Yr Ysgol Sul

---

Nid paratoad ar gyfer bywyd yw addysg, bywyd ei hun yw addysg.

John Dewey

Pwrpas addysg yw cyfoethogi bywyd plentyn.

## EMYNAU

**Mae Iesu'n dysgu'r ffordd o fyw trwy garu cyd-ddyn a chreu heddwch a thangnefedd:**

Nid oes neb fel Iesu yn dysgu'r ffordd i fyw,  
nid oes neb fel Iesu yn dysgu'r ffordd i fyw;  
mae'n rhoi gobaith i'n byd drwy ein dysgu o hyd  
mai trwy gariad Duw byddwn ninnau fyw.

Eddie Jones (*Caneuon Ffydd*: 410)

**O am gael byw i Iesu Grist meddai'r pennill cyntaf; 'rwy'n mynd i fyw i Iesu Grist, meddai'r ail bennill:**

O am gael byw i Iesu Grist bob dydd, clod i Dduw!  
O am gael byw i Iesu, byw yn rhydd, clod i Dduw!  
Gwell na'r byd a'i holl drysorau,  
hwn ydyw'r brawd a'r cyfaill gorau,  
O am gael byw i Iesu Grist bob dydd.

Anad. cyf. Iddo Ef (*Caneuon Ffydd*: 405)

**Roedd y plant a'u mamau yn cael eu denu at Iesu Grist:**

Fe roddiai Iesu un prynhawn  
yng Ngalilea mewn rhyw dref,  
a'r mamau'n llu a ddug eu plant  
yn eiddgar ato ef.

Stopford A. Brooke cyf. G. Wynne Griffith (*Caneuon Ffydd*: 349)

**Galwad sydd yn yr emyn hwn i ddod yn agos at Iesu ‘ar bob awr o’r m hoes’:**

Deuaf atat, Iesu,  
 ar bob awr o’r m hoes;  
 ti yn unig gedwi  
 blentyn rhag pob loes.

Pelidros (*Caneuon Ffydd*: 374)

**Yn yr Ysgol Sul down i adnabod Iesu a’i ddilyn weddill ein bywyd ar y ddaear:**

Dowch, blant bychain, dowch i foli’r Iesu,  
 cariad yw, cariad yw;  
 dowch, blant bychain, dowch i foli’r Iesu,  
 cariad yw, cariad yw.

Nantlais (*Caneuon Ffydd*: 406)

**Mae’r plant yn cael eu galw, ym more oes, i ddilyn Iesu Grist:**

Cristion bychan ydwy’n dilyn Iesu Grist,  
 Cristion bychan ydwy’n dilyn Iesu Grist,  
 O Dduw, rho nerth i geisio rhodio’r llwybr cul  
 a dilyn Iesu Grist.

Anad. (*Caneuon Ffydd*: 794)

**GWEDDĪAU**

**Ar ddechrau’r Ysgol Sul gweddiwn fel un teulu, yr ifanc i elwa ar brofiad yr hen, a’r hen i dderbyn egni’r ifanc:**

Deuwn atat yn llawen,  
 ein Harglwydd byw,  
 ein hathro bendigedig.  
 Deuwn yn deulu,  
 yr ifanc yn ymelwa ar ffrwyth profiad yr hen,

a'r hen yn derbyn her ffresni ac egni'r ifanc.  
 A phawb ohonom yn derbyn gennyt drysor dy Air.  
 Hyfryd eiriau yn ein hadeiladu,  
     dwysbigo,  
     cysuro,  
     puro,  
     goleuo ac ysbrydoli.

Arwain ni, bawb sy'n dysgu a phawb a ddysgir. Arwain ni, yn blant a phobl ifanc a rhai hŷn, i chwilio, trin a thrafod, ond yn bennaf oll i fwynhau dysgu gennyt ac amdanat. Amen.

Owain Llyr Evans

### **Diolchwn am ddylanwad yr Ysgol Sul ar blant ac oedolion fel ei gilydd:**

Diolchwn yn ostyngedig iawn am ddylanwad adeiladol yr Ysgol Sul ar genedlaethau o blant, ieuentid a phobl ifanc. Diolchwn am yr Ysgol Sul fel cyfrwng i'w gwreiddio yn y gwirionedd Cristnogol. Diolch bod llawer o blant ac ieuentid wedi medru defnyddio'r wybodaeth a gawsant yn yr Ysgol Sul i droi at yr Arglwydd Iesu fel eu Gwardwr personol yn nes ymlaen mewn bywyd wrth weld eu hangen amdano yn gliriach. Amen.

John Treharne

### **Ar derfyn yr Ysgol Sul diolchwn am gyfnod yng nghwmni'n gilydd i wrando ar wahanol safbwyntiau:**

Deuwn atat, Arglwydd, ar derfyn y cyfnod hwn yng nghwmni ein gilydd. Diolch am gwmni cyfeillion, am y parodrwydd i rannu a goddef syniadau gwahanol ac amrywiaeth barn; a'r cyfan yn gymorth inni i gyd i ddeall yn well dy Air a'th ewyllys ar ein cyfer. Amen.

Owain Llyr Evans

### **Diolchwn am gyfraniad yr Ysgol Sul sy'n fynegbost ar gyfer y presennol a'r dyfodol:**

Ein Duw a'n Tad, diolchwn i ti am yr Ysgol Sul, ac am y bendithion amhrisiadwy a gyfrennaist inni trwyddi, gan ei gwneud yn gyfrwng i godi cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o rai yn gwybod dy Air ac yn ofni dy

enw. Bydded i bob un ohonynt gael dy Air Sanctaidd yn llusern i'w draed ac yn llewyrch i'w lwybr. Bendithia waith yr Ysgol Sul i'w dwyn i adnabod dy ewyllys, ac i gysegru eu bywyd i'th wasanaeth. Amen.

*Llyfr yr Addoliad Teuluol*

**Arwain ni, bob un ohonom, i ddysgu a hyfforddi ac i roi cychwyn i'n plant ar ddechrau eu pererindod:**

Dw i isio dysgu fy nisgyblion mwy na gwersi mewn llyfr, pethau dyfnach y bydd pobl yn eu hosgoi –

Dysgu sut i dyfu mewn doethineb ac mewn gras,  
fel y byddan nhw un dydd yn gwneud yr hen fyd 'ma yn lle gwell,  
mwy dymunol.

Arglwydd gad i mi fod yn gyfaill ac yn arweinydd i roi cychwyn i'r meddyliau hyn

ar eu llwybr i lawr ffordd hir a throellog bywyd.

Wedyn fe fydda i o leia', wedi gwneud fy rhan. Amen.

*Addas. Aled Lewis Evans*

**ADNODAU**

**Tad yw Duw sy'n tosturio wrth ei blant:**

Fel y mae tad yn tosturio wrth ei blant,  
felly y tosturia'r ARGLWYDD wrth y rhai sy'n ei ofni.

Salm 103: 13

**Y rhodd fwyaf y gallwn ei derbyn yw cael ein galw yn blant i Dduw:**

Gwelwch pa fath gariad y mae'r Tad wedi ei ddangos tuag atom: cawsom ein galw yn blant Duw, a dyna ydym. Y rheswm nad yw'r byd yn ein hadnabod ni yw nad oedd yn ei adnabod ef.

1 Ioan 3: 1

**Roedd rhieni Iesu yn mynd gydag ef i'r oedfa:**

Byddai ei rieni yn teithio i Jerwsalem bob blwyddyn ar gyfer gŵyl y Pasg.

Luc 2: 41

### **Mor bwysig ydi arwain a hyfforddi plentyn ar ddechrau'r daith:**

Hyffordda blentyn ar ddechrau ei daith,  
ac ni thry oddi wrthi pan heneiddia.

Diarhebion 22: 6

### **O ufuddhau i ddeddfau Duw bydd hyn yn fan cychwyn ar daith bywyd:**

Yr wyf wedi gosod fy mryd ar ufuddhau i'th ddeddfau;  
y mae eu gwobr yn dragwyddol.

Salm 119: 112

### **Athro yn dysgu gydag awdurdod oedd Iesu:**

Yr oedd y bobl yn synnu at yr hyn yr oedd yn ei ddysgu, oherwydd yr oedd yn eu dysgu fel un ag awdurdod ganddo, ac nid fel yr ysgrifenyddion.

Marc 1: 22

## **DYWEDIADAU A THRADDODIADAU**

Dewisodd Thomas Charles ei athrawon, nid ar sail cyraeddiadau academaidd ond yn hytrach ar sail eu duwioldeb, moesoldeb a'u gwyleidd-dra. Ei nod oedd creu gwareiddiad wedi'i sylfaenu ar egwyddorion y Beibl. Nid ysgaru dysg a moes wnaeth Charles, ond eu cyfannu er mwyn creu unigolion cyflawn.

Y mae dyfodol Addysg y genedl, yn ogystal â dyfodol ei chrefydd, yn dibynnu ar yr Ysgol Sul i raddau helaethach nag yr un sefydliad arall.

O. M. Edwards

O dir a daear Cymru y tarddodd a datblygodd yr ysgol Sul a hynny yn ei dro a roddodd egni iddi ffynnu a pharhau'n rym mor ddylanwadol am gynifer o flynyddoedd.

Nid yw Cymro yn debyg o anghofio lle hanfodol yr Ysgol Sul yng nghefnidir addysg ein cyfnod. Yn wir, y perygl yw syrthio i'r arfer o gyfeirio'n huawdl at yr Ysgol Sul fel iachawdwriaeth addysgol y genedl; canmol heb ymchwil a beirniadaeth, a gadael y mater yn y fan yna.

W. M. Williams

Yng Nghymru, nid apeliodd y mudiad [Yr Ysgol Sul] at y dosbarthiadau uchaf, a'r prif gymhelliad oedd dyhead y werin am addysg grefyddol.

J. J. Evans

Cyfunodd Thomas Charles ynddo ei hun frwdfrydedd y diwygiwr ac ymroddiad yr addysgwr; asiwyd y mudiad addysgol a'r mudiad crefyddol yn un mudiad cenhadol cryf.

Beryl Thomas